# Noson y Cwis Mawr



## Pecyn y cwisfeistr

**Yn cynnwys:**

- Sgript y cwisfeistr
- Cwestiynau ac atebion y cwis
- Cwestiynau datglwm
- Syniadau hwyliog am ragor o rowndiau

tearfund

**Helo – a chroeso i becyn y cwisfeistr! Y bwriad yw gwneud gwaith y cwisfeistr ar *Noson y Cwis Mawr* yn hwyl ac yn hawdd.**

***Gallwch ddefnyddio'r sgript isod fel canllaw i'ch helpu i gyflwyno'r cwis. Cewch ei darllen air am air, addasu tipyn arni – neu wneud rhywbeth hollol wahanol!***

# Sgript y cwisfeistr

***Cyn dechrau, gofalwch fod pawb yn gallu'ch gweld a'ch clywed.***

**Croeso**

Helo a chroeso i Noson y Cwis Mawr! **[Eich enw chi]** ydw i a dw i'n falch eich bod chi wedi ymuno â ni – dw i'n siŵr y cawn ni noson wych.

Heno, rydyn ni'n rhan o rywbeth arbennig. Ledled Prydain, mae cannoedd o eglwysi a miloedd o bobl yn gwneud yr un peth â ni – dod at ei gilydd i gefnogi achos ardderchog.

Elusen Gristnogol sy'n credu'n angerddol mewn rhoi diwedd ar dlodi byd-eang yw Tearfund. Ers dros hanner canrif, maen nhw wedi bod yn cydweithio â phartneriaid mewn eglwysi lleol i helpu cymunedau i greu dyfodol gwell iddyn nhw eu hunain. Mae'r gwaith hollbwysig hwn yn dibynnu ar ddigwyddiadau fel hyn a phobl fel chi.

Mae gennym ni **[nodwch faint o rowndiau rydych wedi penderfynu eu gwneud]** rownd o gwestiynau, â chwech o gwestiynau ym mhob un, ar y themâu hyn **[gallwch ddileu neu ychwanegu rhai yn ôl yr angen]**: Daearyddiaeth, Gwybodaeth Gyffredinol, Lliwiau, Hanes, Tirnodau Naturiol, Chwaraeon, Cerddoriaeth a Ffilmiau, Cofio 2023, a Bwyd a Diod.

Gawn ni egwyl fach hanner ffordd trwy'r cwis. Cyn hynny. wnawn ni wylio ffilm am waith Tearfund yn Ne Swdan. Bydd pob ceiniog a godwn ni heno'n mynd tuag at drawsnewid cymunedau a helpu i roi diwedd ar dlodi eithafol. Rhowch fel y gallwch chi. Gallwch gyfrannu trwy fynd i'n tudalen JustGiving **[darllenwch yr URL / dangoswch y cod QR]**

Diolch yn fawr. Dyna ddigon o ragymadroddi – ymlaen â'r cwis!

***Sylwch: Ar ôl pob rownd, rhowch amser i'r timau gyfnewid eu taflenni atebion neu eu marcio'ch hunain a chyhoeddi'r sgorau. Mae croeso i chi gyhoeddi'r sgorau wrth fynd ymlaen os liciwch chi.***

**Egwyl hanner amser**

Nawr, rŷn ni'n mynd i gael gwybod mwy am y rheswm pam rŷn ni yma heno. Cyn cael egwyl, rŷn ni'n mynd i glywed stori o Dde Swdan i'n hatgoffa ni pam rŷn ni'n gwneud hyn. Wna i rannu'r ddolen i'n tudalen JustGiving gyda chi nawr a'ch annog i roi'n hael os gallwch chi. Bydd unrhyw swm, bach neu fawr, yn gwneud gwahaniaeth enfawr i bobl sy'n byw mewn angen difrifol.

**Gwylio ffilm**

Gawn ni egwyl nawr. Cerwch i nôl bwyd neu ddiod **[os oes ar gael]**, ewch am dro bach, a pheidiwch â chael eich temtio i gladdu'ch trwyn mewn encyclopaedia.

**Yr ail hanner**

Croeso nôl! Gobeithio'ch bod chi'n barod am weddill y noson. Tra'ch bod chi'n paratoi i ailddechrau, fe alla i ddweud wrthych chi faint o arian sydd wedi'i godi hyd yma – mae'n ardderchog – **£[xxx]** ddim ond o'n cwis ni. Diolch o galon! Os nad ydych chi wedi cyfrannu'n barod, efallai yr hoffech chi wneud hynny wedyn.

Reit, dyma'r rownd nesaf!

**Diwedd y cwis**

A dyna ni – dyna ddiwedd ar y cwestiynau! Gewch chi sgwrsio ymhlith eich gilydd tra byddwn ni'n cyfrif y sgorau.

**Y sgorau**

**Sylwch: Chi sydd i benderfynu a ydych chi'n enwi'r timau i gyd yn eu trefn neu ddim ond y tri uchaf, fel isod**

Wel, wna i ddim o'ch cadw chi ar bigau'r drain. Dyma'r sgorau. Drumroll plis...

Yn drydydd, mae **[enw'r tîm]**. Da iawn, chi!

Yn ail, **[enw'r tîm]**. Mor agos ond eto mor bell!

Ac yn gyntaf, yr enillwyr heno yw: **[enw'r tîm]**! Llongyfarchiadau!

Da iawn, bawb. Rhowch glap i chi'ch hunain.

Rŷn ni mor ddiolchgar eich bod wedi dod heno. Gobeithio'ch bod wedi cael noson werth chweil. Diolch i'ch haelioni chi, rŷn ni wedi codi **£[xxx]** hyd yma. Mae'n mynd i wneud gwahaniaeth enfawr i lawer o bobl o gwmpas y byd. Gallwch gyfrannu yn nes ymlaen at Tearfund trwy fynd i'n tudalen JustGiving **[darllenwch yr URL / dangoswch y cod QR]**.

Tan y tro nesaf, hwyl fawr!

# Cwestiynau'r Cwis

## **Daearyddiaeth:** Prifddinasoedd

1. **Beth yw prifddinas Bolivia?**
   **A: Sucre  B: La Paz  C: Cochabamba**
   Ateb B: La Paz

2. **Pa un o'r gwledydd hyn sydd â dim ond un brifddinas?**
   **A: Yr Iseldiroedd  B: Twrci**
   **C: Côte d'Ivoire/Y Traeth Ifori**
   Ateb B: Twrci

3. **Beth yw prifddinas Affganistan?**
   **A: Kabul  B: Islamabad  C: Afghan**
   Ateb A: Kabul

4. **Ar ba gyfandir mae prifddinasoedd o'r enw Chisinau, Ljubljana a Skopje?**
   **A: Asia  B: De America  C: Ewrop**
   Ateb C: Ewrop

5. **Pa brifddinas sydd â'r enw swyddogol hiraf yn y byd ond sy'n cael ei nabod wrth enw byrrach?**
   **A: Bangkok  B: Hanoi  C: Kuala Lumpur**
   Ateb A: Enw swyddogol Bangkok yw Krung Thep Maha Nakhon

6. **Beth yw prifddinas Canada?**
   **A: Ottawa  B: Toronto  C: Montreal**
   Ateb A: Ottawa

## **Gwybodaeth Gyffredinol:** Lliwiau

1. **Beth yw'r prif liw ar faner y Cenhedloedd Unedig?**
   Ateb: Glas


2. **Yn 1900, darganfuwyd mai mosgitos oedd yn trosglwyddo math arbennig o salwch. Pa liw sydd ar y salwch? 'Y dwymyn _____"**
   Ateb:Y dwymyn felen

3. **Beth yw lliw papur litmws sydd wedi'i roi mewn hydoddiant asidaidd (acid solution)?**
   Ateb: Pinc

4. **Mae saith lliw mewn enfys. P'un sydd ar goll yma? Coch, oren, melyn, gwyrdd, glas, fioled...**
   Ateb: Indigo

5. **Pa liw yw wyau emiw?**
   **A: Gwyrdd  B: Glas  C: Porffor**
   Ateb A: Gwyrdd

6. **Yn 1986, cafodd ffilm ei henwebu am 11 Oscar ond wnaeth hi ddim ennill yr un. Beth oedd ei henw? *The Color...?***
   Ateb: Purple



# Cwestiynau'r Cwis



## **Hanes :** Dau wirionedd, un celwydd

1. **Dau wirionedd, un celwydd am gyfnod y Rhufeiniaid.**
   **Pa un yw'r celwydd?**
   **A: Roedd llawer o liwiau ar gerfluniau Rhufeinig yn wreiddiol**
   **B: Nid trwy doriad cesaraidd (caesarean section) y cafodd Iwl Cesar (Julius Caesar) ei eni**
   **C: Weithiau, roedd y Rhufeiniaid yn defnyddio powdwr wedi'i wneud o ymennydd brogaod fel past dannedd**
   Ateb: C yw'r celwydd. Ymennydd llygod oedd e.

2. **Dau wirionedd, un celwydd am Shakespeare.**
   **Pa un yw'r celwydd?**
   **A: Chafodd Shakespeare ddim addysg. Dysgodd ei hunan i ddarllen ac ysgrifennuf**
   **B: Cafodd Shakespeare ei eni a marw ar yr un dyddiad, sef Dydd San Siôr, 23 Ebrill**
   **C: Yn ei ewyllys, gadawodd Shakespeare ei dŷ i'w ferch a'i 'wely ail orau' i'w wraig**
   Ateb: A yw'r celwydd. Aeth Shakespeare i'r ysgol ramadeg leol yn Stratford-upon-Avon.

3. **Dau wirionedd, un celwydd am Dân Mawr Llundain.**
   **Pa un yw'r celwydd?**
   **A: Defnyddiodd cwmnïau yswiriant y tân i roi hwb i sefydlu'r frigâd dân gyntaf**
   **B: Meddyliodd Arglwydd Faer Llundain mai tân bach, dibwys oedd e, ac aeth yn ôl i'r gwely**
   **C: Becws Farriner's yn Pudding Lane oedd man cychwyn y tân**
   Ateb: C yw'r celwydd. Mae becws Farriner's oddi ar Pudding Lane mewn cilfach o'r enw Fish Yard.

4. **Dau wirionedd, un celwydd am y Canoloesoedd.**
   **Pa un yw'r celwydd?**
   **A: Roedd anifeiliaid yn cael eu rhoi ar brawf am lofruddio a throseddau eraill**
   **B: Hyd at yr unfed ganrif ar bymtheg (16eg ganrif), ychydig iawn o lwyau oedd yn Lloegr**
   **C: Roedd pupur a siwgwr yn costio mwy nag aur, yn ôl pwysau**
   Ateb: B yw'r celwydd. Ffyrc oedd yn brin iawn, nid llwyau.

5. **Dau wirionedd, un celwydd am y Frenhines Victoria.**
   **Pa un yw'r celwydd?**
   **A: Nid Victoria oedd ei henw cyntaf**
   **B: Hi ofynnodd i'w gŵr ei phriodi, nid ef yn gofyn iddi hi**
   **C: Hi oedd yr aelod cyntaf o'r teulu Brenhinol i fyw yng Nghastell Windsor**
   Ateb: C yw'r celwydd. Hi oedd y cyntaf i fyw ym Mhalas Buckingham. Harri I oedd y cyntaf i fyw yng Nghastell Windsor.

6. **Dau wirionedd, un celwydd am yr Alban.**
   **Pa un yw'r celwydd?:**
   **A: Caeredin oedd y ddinas gyntaf yn y byd i gael ei gwasanaeth ambiwlans ei hunan**
   **B: Yr ungorn yw anifail swyddogol yr Alban**
   **C: Baner yr Alban, y Saltire, yw'r faner genedlaethol hynaf sy'n dal i gael ei defnyddio**
   Ateb: A yw'r celwydd. Y ddinas gyntaf yn y byd i gael ei brigâd dân ei hun oedd Caeredin.

## Tirnodau Naturiol

1. **Pa losgfynydd byw, yn edrych i lawr dros Sisili, yr Eidal, sy'n cael ei alw'n 'y Mynydd sy'n Mygu' ('The Smoking Mountain')**
   **A: Mynydd Etna  B: Mynydd Vesuvius  C: Mynydd Everest**
   Ateb A: Mount Etna

2. **Ym mha wlad yn Ne America mae'r rhaeadr uchaf yn y byd, sy'n 3,200 troedfedd o uchder?**
   **A: Brasil  B: Mecsico  C: Venezuela**
   Ateb C: Venezuela

3. **Ym mha dalaith yn America mae'r Grand Canyon, a luniwyd gan afon Colorado?**
   **A: California  B: Arizona  C: Newfoundland**
   Ateb B: Arizona

4. **Mae Uluru, a elwir hefyd yn Ayers Rock, yn fonolith tywodfaen enfawr sy'n gysegredig i Awstraliaid Brodorol. Ym mha diriogaeth yn Awstralia mae'r tirnod arbennig hwn?**
   **A: De Cymru Newydd (New South Wales)**
   **B: Tiriogaeth y Gogledd (Northern Territory)**
   **C: Wellington**
   Ateb B: Northern Territory

5. **Ym mha wlad, sydd â'r llysenw 'Gwlad Tân a Rhew', mae llosgfynyddoedd byw a rhewlifoedd enfawr?**
   **A: Yr Ynys Las (Greenland)  B: Gwlad yr Iâ  C: Norwy**
   Ateb B: Gwlad yr Iâ

6. **Ym mha sir mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n enwog am ei raeadrau a'i lwybrau cerdded yn y mynyddoedd?**
   **A: Powys  B: Sir Benfro  C: Swydd Amwythig**
   Ateb A: Powys

## Chwaraeon

1. **Sawl pwynt sydd i'w hennill am 'touchdown' mewn Pêl-droed Americanaidd?**
   **A: 6  B: 4  C: 2**
   Ateb A: 6

2. **Pa offer a ddefnyddir mewn gymnasteg i wneud symudiadau swingio ac acrobateg?**
   **A: Bariau Anghymesur (Uneven Bars)  B: Bariau Rheoledig (Regulated Bars)  C: Bariau Cyfochrog (Parallel Bars)**
   Ateb A: Bariau Anghymesur (Uneven Bars)

3. **Ym mha gamp roedd Medi Harris yn cynrychioli Prydain yn y Gemau Olympaidd eleni?**
   **A: Rhwyfo  B: Nofio  C: Karate**
   Ateb B: Nofio

4. **Pwy sydd wedi ennill y nifer fwyaf o 'grand slams' mewn tennis, Venus Williams ynteu Serena Williams?**
   Ateb: Serena Williams

5. **Pa rif sydd i'r dde o'r rhif 20 ar fwrdd dartiau arferol?**
   **A: 1  B: 5  C: 3**
   Ateb A: 1

6. **Pa wlad yn Affrica oedd y gyntaf i gyrraedd Cwpan y Byd, pêl-droed?**
   **A: Yr Aifft  B: Cameroon  C: Côte d'Ivoire (Y Traeth Ifori)**
   Ateb A: Yr Aifft

## Cerddoriaeth a Ffilmiau

**Cwblhewch y dyfyniad neu'r geiriau o'r ffilmiau a'r caneuon adnabyddus hyn:**

1. **Ffilm: *A Streetcar Named Desire* (1951): 'I have always relied on the _______ of ________.'**
   Ateb: kindness of strangers


2. **Cân: *Hallelujah* gan Leonard Cohen: 'It goes like this, the fourth, the fifth/ The minor falls, the _____ _____.'**
   Ateb: major lift

3. **Ffilm: *Wallace & Gromit: The Wrong Trousers* (1993): 'It's the wrong trousers Gromit! And they've ____ ____!"**
   Ateb: gone wrong!

4. **Cân: Fel hyn 'da ni fod gan Bwncath: 'Pan oedden ni'n iau, er i'n cyrff fod mor frau / Roedd 'na awydd cryf i ________.'**
   Ateb: ddyfalbarhau.

5. **Ffilm: *Dune* (2021): "Dreams make good stories, but everything important happens when we're _____."**
   Ateb: awake.

6. **Cân: *Flowers* gan Miley Cyrus: 'I can buy myself flowers/ Write my name in ___ ____.'**
   Ateb: the sand.



## Cofio 2023

1. **Pa ffilm gomedi ffantasi enillodd fwyaf o arian yn y sinemâu yn 2023?**
   Ateb: Barbie

2. **Yn 2023, taith gyngherddau gan pa ganwr neu gantores oedd y gyntaf i ddod i mewn â $2bn?**
   Ateb: Taylor Swift

3. **Cafodd pennod olaf y gyfres Happy Valley ar y BBC fwy o wylwyr nag unrhyw ddrama deledu arall o Brydain yn 2023. Pwy oedd yn chwarae rhan y Sarjant Catherine Cawood?**
   Ateb: Sarah Lancashire

4. **Pa glwb pêl-droed, sy'n eiddo i'r actorion enwog, Ryan Reynolds a Rob McElhenney, gafodd ddyrchafiad i'r Gynghrair Bêl-droed ar ôl absenoldeb o 15 mlynedd?**
   Ateb: Wrecsam

5. **Pa un o'r eitemau hyn a werthwyd am y pris mwyaf mewn ocsiwn yn 2023?**
   **A: Het dau gornel oedd yn perthyn i Napoleon**
   **B: Jeans oedd yn perthyn i'r canwr grunge Kurt Cobain**
   **C: Crys LA Lakers oedd yn eiddo i Wilt Chamberlain**
   Ateb C: Gwerthwyd crys Lakers oedd yn eiddo i Wilt Chamberlain am $4.9m

6. **Pa ganwr-gyfansoddwr Gwyddelig, a aned ym Mhrydain, a fu farw yn 2023?**
   Ateb: Shane MacGowan

## Bwyd a Diod

1. **Pa ddiod boblogaidd o Mecsico sy'n cynnwys ffrwythau fel mango, pinafal a melon dŵr wedi'u blendio, gyda dŵr a joch o sudd leim?**
   Ateb: Agua Fresca

2. **Pa bryd o fwyd o Ffrainc sy'n cynnwys darnau o gig eidion wedi'u coginio'n araf mewn gwin coch (Bwrgwyn yn aml), stoc cig eidion, moron, nionod/winwns, garlleg a bouquet garni?**
   Ateb: Boeuf Bourguignon

3. **Pa derm o Japan sy'n cyfeirio at reis wedi'i sesno a chynhwysion eraill fel llysiau, pysgod, neu wymon? Caiff ei weini'n aml wedi'i rowlio mewn nori neu mewn dysgl.**
   Ateb: Sushi

4. **Beth yw'r prif beth sy'n rhoi blas i "Za'atar", cyfuniad o sbeisys o'r Dwyrain Canol?**
   Ateb: Sumac

5. **Pa bryd traddodiadol o Dde America sy'n cynnwys sleisys tenau o bysgod amrwd, gan amlaf wedi'u mwydo mewn sudd sitrws fel leim neu lemwn, ac yn aml wedi'u cymysgu â winwns/nionod, pupur tsili, a choriander?**
   Ateb: Ceviche


6. **Pa ddiod draddodiadol, o Dwrci'n wreiddiol, sy'n cynnwys iogwrt, dŵr a halen, gyda mint neu giwcymber i roi blas weithiau?**
   Ateb: Ayran

## Cwestiynau datglwm

**Am faint o ddiwrnodau barodd taith Apollo 11, o'r lansio i'r glanio yn y môr?**
Ateb: 8 diwrnod

**Tua faint yw arwynebedd ein hysgyfaint mewn metrau sgwâr?**
Ateb: Tua 70 metr sgwâr

**Beth yw cyfanswm hyd Wal Fawr Tsieina mewn cilometrau?**
Ateb: Tua 21,196 cilometr



# Rowndiau ychwanegol

**Rownd Lluniau**
**Disgrifiad:** Dangoswch luniau o dirnodau, enwogion, cloriau recordiau/llyfrau, neu bobl hanesyddol enwog a gofyn i'r timau eu henwi.
***Enghraifft:* "Enwi'r tirnod" gyda lluniau o Dŵr Eiffel, Wal Fawr Tsieina, ac ati.**

**Rownd Dyfalu'r Sŵn**
**Disgrifiad:** Chwaraewch recordiad o wahanol synau a gofyn i'r timau ddyfalu beth yw'r sŵn.
***Enghraifft:* Sŵn teipiadur, ci yn cyfarth, neu ddrws yn gwichian.**

**Rownd Sydyn**
**Disgrifiad:** Gosodwch amserydd am amser byr (e.e. munud) a gofyn cymaint o gwestiynau sydyn ag y gallwch.
***Enghraifft:* "Beth yw prifddinas Ffrainc?" (Ateb: Paris).**

**Rownd Manion Lleol**
**Disgrifiad:** Bydd y rownd hon yn cynnwys cwestiynau am yr ardal lle mae'r noson gwis yn cael ei chynnal. Gallant fod am hanes lleol, tirnodau, pobl nodedig, digwyddiadau, a thraddodiadau neu ffeithiau lleol unigryw. Gall y rownd hon helpu pobl i ddysgu mwy am yr ardal a'i threftadaeth a rhoi elfen bersonol i'r cwis.

***Enghreifftiau o'r Cwestiynau:***

1. **Hanes Lleol**
   **Cwestiwn: Ym mha flwyddyn y sefydlwyd [enw'r ddinas/dref]?**
   Ateb: [Blwyddyn]

2. **Landmarks**
   **Cwestiwn: Beth yw enw'r cerflun enwog sydd [nodwch ble]?**
   Answer: [Enw'r cerflun]



**tearfund.org/quiz**
Tearfund, 100 Church Road, Teddington, TW11 8QE, United Kingdom
+44 (0)20 3906 3906 info@tearfund.org /Tearfund

Registered office: Tearfund, 100 Church Road, Teddington, TW11 8QE. Registered in England: 994339. A company limited by guarantee. Registered Charity No. 265464 (England & Wales) Registered Charity No. SC037624 (Scotland)